# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(22)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 4, 9 a 12 eu hateb gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau. Tynnwyd cwestiwn 14 yn ôl.

**14.20**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Gofynnwyd y 13 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiynau 1 a 7 yn ôl.

**15.01**
**3. Datganiad gan y Prif Weinidog: Dulliau Llywodraeth Cymru i Sbarduno'r Economi**

**15.21**
**4. Cynnig i ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau**

**NDM4820 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 1.7, yn ethol David Melding AC, Mike Hedges AC, Peter Black AC a Jocelyn Davies AC, yn ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle Rosemary Butler AC, John Griffiths AC, yr Arglwydd German a'r Arglwydd Wigley.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**15.22**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4821 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu 'Cynllun Canser Cenedlaethol'; a

b) Penodi cydlynydd canser annibynnol i oruchwylio gweithredu'r 'Cynllun Canser Cenedlaethol' hwnnw a chodi ymwybyddiaeth o ganser, cydlynu gwasanaethau a hyrwyddo mesurau ataliol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 1:

'Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 13 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt b) a rhoi yn ei le:

Adolygu pa gymorth sydd angen ei roi ar lefel Cymru gyfan i gynorthwyo GIG Cymru i fynd i'r afael â chanser.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 17 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4821 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu 'Cynllun Canser Cenedlaethol'; a

b) Adolygu pa gymorth sydd angen ei roi ar lefel Cymru gyfan i gynorthwyo GIG Cymru i fynd i'r afael â chanser.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.21**
**6. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4822 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth y toriad o 41y cant yng nghyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru ac effaith niweidiol hynny ar y sector adeiladu; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ysgogi'r economi drwy:

a) Creu cronfa buddsoddiad seilwaith;

b) Defnyddio pwerau benthyg Awdurdodau Lleol;

c) Gweithredu i helpu i gynyddu canran y cwmnïau yng Nghymru sy'n ennill tendrau caffael cyhoeddus; a

d) Chwilio am ffyrdd arloesol o godi cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith ar wahân i Fenter Cyllid Preifat.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 12 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**17.20**
**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4824 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu Cynllun Canser cynhwysfawr sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i:

i) bennu targedau clir i sicrhau bod y triniaethau gorau sydd ar gael ar gael i bawb yng Nghymru ni waeth pa fath o ganser sydd ganddynt na lle maent yn byw;

ii) datblygu cynlluniau clir ar gyfer canfod canser yn gynharach yng Nghymru.

iii) sicrhau bod cefnogaeth holistaidd yn cael ei darparu i’r rheini sy’n byw â chanser a’u teuluoedd o’r funud maent yn amau bod ganddynt ganser, yn ystod eu triniaeth ac ar ei hôl yn ogystal ag ar ddiwedd bywyd;

b) Sefydlu Cronfa Cyffuriau Canser; ac

c) Datblygu cynllun i gefnogi’r rheini sy’n goroesi canser.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddechrau pwynt 1:

‘Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau b.) ac c.) a rhoi yn eu lle:

sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar driniaethau canser diogel ac effeithiol mewn modd teg a phrydlon.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 17 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4824 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Sefydlu Cynllun Canser cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i:

i) bennu targedau clir i sicrhau bod y triniaethau gorau sydd ar gael ar gael i bawb yng Nghymru ni waeth pa fath o ganser sydd ganddynt na lle maent yn byw;

ii) datblygu cynlluniau clir ar gyfer canfod canser yn gynharach yng Nghymru.

iii) sicrhau bod cefnogaeth holistaidd yn cael ei darparu i'r rheini sy'n byw â chanser a'u teuluoedd o'r funud maent yn amau bod ganddynt ganser, yn ystod eu triniaeth ac ar ei hôl yn ogystal ag ar ddiwedd bywyd; a

b) sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar driniaethau canser diogel ac effeithiol mewn modd teg a phrydlon.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.05**
**Cyfnod pleidleisio**

**18.09**
**8. Dadl Fer**

**NDM4823 Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**

Busnesau Bach, Effaith Fawr

Daeth y cyfarfod i ben am 18.29.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13.30 Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011**